



**HYSBYSIAD O'R PENDERFYNIAD AR GYNNIG I WNEUD NEWID A REOLEIDDIR A THROSGLWYDDO YSGOL GYNRADD GYMRAEG LLYN Y FORWYN I SAFLE NEWYDD**

Penderfynodd Cabinet y Cyngor yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2021, gymeradwyo'r cynnig uchod i'w gweithredu erbyn Mawrth 2024.

Ddaeth dim gwrthwynebiadau i law yn ystod cyfnod yr Hysbysiad Statudol ac o'r herwydd, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, doedd dim angen Adroddiad Gwrthwynebiadau.

Cafodd y rhesymau dros y cynnig, a'r rhesymeg y tu ôl iddo, ynghyd â rhesymau dros y penderfyniad hwn i'w weithredu eu nodi'n llawn a'u hesbonio yn y ddogfen ymgynghori a gafodd ei dosbarthu'n eang yn gynharach eleni. Yn ogystal â'r rhesymeg gadarn, dylid nodi y bu cefnogaeth sylweddol i'r prosiect yma.

Wrth wneud ei benderfyniad terfynol, daeth y Cabinet felly i'r casgliad bod y buddion yn sgil cyflawni'r cynnig yma'n gadarnhaol dros ben. Bydd y cynnig yn cyflawni'r canlynol:

- Amgylcheddau dysgu modern, hyblyg i'r holl ddisgyblion a chyfleusterau cwbl hygrych.
- Ardaloedd mewnol ac allanol i'w defnyddio gan y gymuned leol.
- Gwell lleoedd awyr agored i gefnogi'r ystod llawn o weithgareddau'r cwricwlwm, gan gynnwys ystafell ddosbarth awyr agored ac ardal 'ysgolion coedwig'.
- Mesurau rheoli traffig gwell gan gynnwys man gollwng ar y safle ar gyfer disgyblion sy'n teithio ar fysiau a maes parcio i'r staff.

Bydd hefyd yn cryfhau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Rhondda Cynon Taf ac yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050. Y prif newid fydd gwelliant yn ansawdd darpariaeth y lleoliad addysg, gyda'r disgyliad y bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar brofiad addysgol yr holl ddisgyblion.

Yn seiliedig ar y deilliannau yma, penderfynodd y Cabinet i gymeradwyo gweithredu'r cynnig yma.

Yn gywir,

**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**